

Ymddiriedolaeth



Foundation

Grantiau ar gael i gefnogi:

eglwysi a chapeli

myfyrwyr uwchraddedig

eisteddfodau

cyhoeddiadau diwinyddol, crefyddol ac athronyddol

cyrsgiau dwys i weithwyr Cristnogol



Am fwy o fanylion, cysylltwch ag:

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen 9 Stryd y Farchnad, Aberystwyth SY23 1DL

Ffôn: 01970 612806 **E-bost:** post@jamespantyfedwen.cymru

www.jamespantyfedwen.cymru

Adeiladau Eglwysig

Cynigir grantiau i wella ac adnewyddu adeiladau eglwysig yng Nghymru, yn enwedig pan fo'r gwaith hwnnw yn gysylltiedig â datblygu bywyd a gwaith cenhadol yr eglwys, neu'n annog cydweithio rhwng gwahanol eglwysi â'i gilydd neu'n gymorth i ymestyn allan a chefnogi'r gymuned yn ehangach.

Adnoddau neu Offer

Gellir gwneud cais am grant i helpu prynu offer neu adnoddau costus ar gyfer yr eglwys, e.e. sgriniau, offer technegol neu gerddorol, neu adnoddau ar gyfer prosiectau cydenwadol neu brosiectau fydd yn adeiladu gwell cyswllt â'r gymuned. Rhaid bod yr eglwys yn cynnal gwasanaethau cyson, ac yn rhan o strwythur enwadol yng Nghymru neu wedi'i chofrestru fel elusen ar wahân.

Cyhoeddiadau ym maes crefydd, diwinyddiaeth ac athroniaeth

Gellir ymgeisio am grant i gyhoeddi deunyddiau ym maes crefydd, diwinyddiaeth, ac athroniaeth, pan na ddisgwylir i'r cyhoeddiadau hynny gael grantiau o ffynonellau cyhoeddi eraill. Rhaid bod gan yr ymgeisydd gyfeiriad parhaol yng Nghymru am o leiaf dair blynedd cyn cyflwyno cais.

Myfyrwyr Uwchraddedig

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi myfyrwyr uwchraddedig o Gymru gan gyfrannu tuag at ffioedd cyrsiau Meistr neu PhD. Rhaid bod gan ymgeiswyr gyfeiriad parhaol yng Nghymru; rhaid hefyd eu bod naill ai wedi eu geni yng Nghymru, neu fod â rhiant wedi ei eni yng Nghymru, neu fod wedi treulio cyfnod o 7 mlynedd yn astudio yng Nghymru. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **diwedd Mehefin** bob blwyddyn.

Eisteddfodau

Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi grantiau blynyddol i eisteddfodau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol Cymru. Rhaid i'r eisteddfod fod naill ai wedi'i chofrestru fel elusen neu'n cael ei threfnu o dan adain corff sy'n elusen. Bydd cymorth ariannol yr Ymddiriedolaeth yn seiliedig ar ganran o'r arian gwobrau a dalwyd yn yr Eisteddfod flaenorol, ac nid oes modd ystyried unrhyw gostau eraill.

Cyrsiau hyfforddi dwys

Cynigir grantiau i helpu gyda chostau cyrsiau hyfforddi dwys i weinidogion, gweithwyr ac arweinwyr Cristnogol yng Nghymru. Dylai'r cyrsiau gyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygiad gweinidogaeth a chenhadaeth. Rhaid i'r ymgeisydd fod yn aelod, neu'n ymwneud yn gyson, ag eglwys Gristnogol yng Nghymru.